**CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG**

**POLISI CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**

Mae llwyddiant y Cyngor yn dibynnu ar waith ei Gynghorwyr a gweithwyr. Bydd manteisio ar yr hyn sy'n unigryw am unigolion a thynnu ar eu safbwyntiau a phrofiadau gwahanol yn ychwanegu gwerth at y ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli ei faterion ar ran y gymuned.

Bydd y Cyngor yn ymdrechu'n gyson i greu amgylchedd cynhyrchiol sy'n cynrychioli ac yn ymatebol i wahanol ddiwylliannau a grwpiau, lle mae pawb yn cael cyfle cyfartal i gyfrannu at amcanion y Cyngor.

Mae gan Gynghorwyr a gweithwyr gyfrifoldeb i gofleidio ac i gefnogi'r weledigaeth hon ac mae rhaid parhau i herio ymddygiad ac agweddau sy'n atal y Cyngor rhag cyflawni ei weledigaeth. Trwy ddefnyddio arferion cyflogi deg, wrthrychol, arloesol, nod y Cyngor yw sicrhau bod:

- holl weithwyr a darpar weithwyr yn cael eu trin yn deg a gyda pharch ar bob cam o'u cyflogaeth.
- gan bob gweithiwr yr hawl i fod yn rhydd rhag aflonyddu a bwlio o unrhyw fath, neu unrhyw fath arall o ymddygiad diangen, boed yn seiliedig ar unrhyw nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sef statws rhyw, traws-rhyw, statws priodasol, statws partneriaeth sifil, beichiogrwydd, hil, anabledd, oedran, cred wleidyddol neu grefyddol neu rywioldeb.
- gan bob gweithiwr cyfle cyfartal i gyfrannu ac i gyflawni eu potensial, heb ystyried unrhyw nodwedd ddiffiniol a allai arwain at wahaniaethu annheg.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i wahaniaethu yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol wrth recriwtio neu gyflogaeth oherwydd yr hyn a elwir yn " nodweddion gwarchodedig " :

**Rhyw**

Mae'r Cyngor yn gwbl ymroddedig i:

- herio ystrydebau rhyw
- cefnogi gweithwyr mewn cydbwyso eu bywyd yn y gwaith ac yn y cartref
- cefnogi gweithwyr sy'n mynd yn feichiog ac yn cymryd camau gweithredol i hwyluso eu dychweliad i'r gwaith ar ôl absenoldeb mamolaeth.

**Statws trawsrywiol**

Bydd Cyngor yn diogelu pobl sy'n bwriadu cael, yn cael, neu wedi cael triniaeth ailbennu ryfedd yn erbyn pob math o wahaniaethu ac aflonyddu. Bydd y Cyngor yn

cymryd camau cadarnhaol i gefnogi person trawsrywiol a sicrhau eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.

**Statws priodasol**

Bydd Cyngor yn trin pobl yn gyfartal beth bynnag eu statws partneriaeth sifil, briodasol neu deuluol.

**Hil**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i:

- herio stereoteipiau hiliol
- deall, parchu a gwerthfawrogi cefndiroedd a safbwyntiau hil a diwylliannol gwahanol.

**Anabledd**

Mae’r Cyngor yn cydnabod a gwerthfawrogi galluoedd pobl anabl drwy:

- canolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ei wneud yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud
- herio stereoteipiau ynglŷn â phobl ag anableddau
- gwneud addasiadau priodol yn y gweithle i helpu pobl ag anableddau gyflawni eu potensial gyrfaol llawn.

**Oedran**

Mae amrywiaeth oedran yn cael ei hyrwyddo a'i werthfawrogi drwy herio stereoteipio oedran.

**Cred grefyddol**

Mae’r Cyngor yn trin pobl yn deg beth bynnag yw eu credoau ac arferion crefyddol trwy gydnabod rhyddid unigolion o gred a hawl i amddiffyniad rhag anoddefgarwch ac erledigaeth.

**HIV**

Nid yw gwahaniaethu yn erbyn gweithiwr neu weithwyr posibl ar sail fod ganddynt neu y credir fod ganddynt, HIV neu AIDS yn dderbyniol, a bydd cyfrinachedd yn cael ei barchu yn unol â dymuniadau'r unigolyn gyda HIV neu AIDS.

**Rhywioldeb**

Mae'r Cygor yn trin pobl yn deg beth bynnag yw eu rhywioldeb trwy:

- parchu ffyrdd o fyw gwahanol
- herio safbwyntiau negyddol ystrydebol.